


# Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Heol Pentre

**Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno i leihau perygl llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb i 227 eiddo yn ardal Pentre.**

| Crynodeb o'r Cynllun | |
|---|---|
| Ardal Strategol Perygl Llifogydd | Cwm Rhondda Fawr Uchaf |
| Canolfan/Swyddfa | Heol Pentre – Pentre |
| Eiddo sy'n elwa | 217 eiddo preswyl a 10 eiddo dibreswyl |
| Math o Gynllun | Uwchraddio Cilfach y Cwlfert |
| Cost | £353,000 |
| Contractwr | Hammonds Construction |
| Statws | Wedi cwblhau |
| Dyddiad Cwblhau Cynllun | Ionawr 2021 |
| Ffynhonnell Ariannu | Grant mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru |





*Lluniau cyn (chwith) ac Ar ôl (dde) o fewnfa Cynllun Lliniaru Llifogydd Heol Pentre*

## Cefndir y Cynllun

Mae Pentre wedi'i nodi yn ardal sy'n wynebu risg uchel o lifogydd dŵr wyneb a chwrs dŵr cyffredin yn seiliedig ar fapiau Asesu Risg Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae wedi'i osod yn safle 1 yng Nghymru ar gyfer perygl llifogydd dŵr wyneb a chwrs dŵr cyffredin ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR).

Effeithiwyd ar bentref Pentre gan lifogydd ar bum achlysur gwahanol yn ystod 2020. Mae'r digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn gysylltiedig â Storm Dennis a ddigwyddodd rhwng 15 a 16 Chwefror 2020. Arweiniodd effaith y storm yma ym Mhentre at lifogydd mewnol mewn 159 eiddo preswyl, 10 eiddo masnachol a llifogydd helaeth i'r briffordd, yn bennaf o ganlyniad i'r gilfach cwlfert i'r gogledd o'r pentref yn gorlifo ar ôl cael ei llethu gan falurion o'r dalgylch uchaf. Cafodd y gilfach ei difrodi'n ddifrifol yn ystod Storm Dennis, fel y dangosir yn Delwedd X.

## Disgrifiad o'r Cynllun

Roedd y cynllun lliniaru llifogydd ar Heol Pentre yn mynd i'r afael â'r geuffos sy'n gysylltiedig â chwrs dŵr cyffredin Nant y Pentre yng ngogledd y pentref a gafodd ei difrodi'n ddifrifol yn dilyn Storm Dennis. Nod y cynllun oedd gwella'r isadeiledd draenio cyffredinol er mwyn rheoli'r llif dŵr o gwrs dŵr cyffredin Nant y Pentre yn well, lliniaru problemau llif dros y tir posibl a gwella rheolaeth ar falurion i leihau'r risg o rwystr.

Mae'r gwaith gwella i gilfach y cwlfert yn cynnwys gwaith uwchraddio i'r gilfach a'r wal flaen a gafodd ei difrodi, adeiladu strwythur gorlif pwrpasol a llwybr rheoli llif dros y tir a gafodd ei ddylunio i reoli llif dŵr sy'n gorlifo o fewnfa y cwlfert, ailddiffinio'r sianel i fyny'r afon a gosod daliwr malurion mwy i leihau'r risg o rwystro mewnfa'r cwlfert a'r rhwydwaith, ac felly lleihau'r risg o lifogydd i gymuned Pentre.

Gosodwyd dyfeisiau telemetreg, gan gynnwys camera teledu cylch cyfyng, mesurydd glaw a system synhwyro lefel dŵr yn y geuffos ar Heol Pentre i roi rhybuddion ymlaen llaw i garfanau cynnal a chadw'r Cyngor o rwystrau posibl.

## Buddion y Cynllun

Lleihau perygl llifogydd ar gyfer **217 eiddo**

Gwella **cydnerthedd hirdymor** y cwlfert a'r gymuned i lawr yr afon

**Gosod system teledu cylch cyfyng (TCC)** i fonitro cilfach y cwrs dŵr

**Gosod system larwm rhybudd cynnar** at ddibenion cynnal a chadw'r Cyngor

**Cynyddu safon amddiffyniad** y gilfach

Lleihau'r risg o falurion **yn rhwystro'r fewnfa a rhwydwaith y cwlfert**